

TRANSCRIPT OF HUW EDWARDS VIDEO (WELSH LANGUAGE VERSION)

<https://www.bbc.co.uk/teach/young-reporter/lesson-3-gathering-news/zqcm8hv>

Croes nol. Unwaith y bydd newyddiadurwr y BBC wedi dod o hyd i stori newyddion, fe fydd yn rhaid gwirio'r ffeithiau yn ofalus – a chasglu popeth ynghyd i wneud adroddiad.

Gallwch chi ddechrau drwy gasglu'r ffeithiau.

Ffordd hawdd i wneud hyn yw cofio 5 peth:

- BETH ddigwyddodd?
- PWY oedd yn cymryd rhan yn y stori?
- BLE digwyddodd hyn?
- PRYD digwyddodd hyn?
- a PHAM digwyddodd hyn?

A hefyd peidiwch ag anghofio gofyn SUT digwyddodd hyn?

Y ffeithiau yw sail y stori – felly casglwch eich ffeithiau, ffigurau a'ch ystadegau a'u gwirio'n ofalus. Fe fyddwch chi ar dir digon cadarn os gwnewch chi hyn.

Byddwch yn gallu casglu rhai ffeithiau ychwanegol, ac o bosib rhai unigryw, drwy gyfweld pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan y stori – neu sydd â gwybodaeth arbennig o'r pwnc.

Bydd newyddiadurwyr y BBC yn sicrhau bod ganddyn nhw gymaint â phosibl o wybodaeth cefndir – cyn mynd allan i gyfweld unrhyw un.

Ac fe ddylech chith e wneud hefyd. Bydd angen i chi wybod llawer am y pwnc fel y gallwch ofyn y cwestiynau priodol – a herio'r bobl rydych chi'n eu cyfweld.

Mae angen cynllunio da ar gyfer cyfweiliadau da, felly, cofiwch y pum pwynt pwysig Beth, Pwy, Ble, Pryd, Pam a Sut wrth baratoi'ch cwestiynau.

Mae cyfweiliadau hefyd yn gyfle da i gasglu barn.

Ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod y gwahaniaeth rhwng ffaith a barn.

Allwch chi ddim ddadlau â ffaith... ond safbwynt personol yw barn a does dim sicrwydd ei fod yn wir.

Pan fyddwch yn cynnwys barn rhaid i chi ei GYDBWYSO drwy roi'r farn wrthgyferbyniol neu farn arall.

Yn y BBC – rydyn ni'n galw hyn yn 'bod yn ddi-duedd' a hwn yw un o'n gwerthoedd craidd.

Mae'n ymwneud â bod yn wrthrychol a pheidio â chymryd ochr neb.

Gadewch i'r gynulleidfa benderfynu beth i'w feddwl.

Mae llawer rhagor o wybodaeth am hyn yn ein dosbarthiadau meistr.

Felly, ewch allan, casglwch eich newyddion a mwynhewch.